helplu
helpforce

CYMDEITHION GWIRFODDOL MEWN GOFAL DIWEDD OES: STORI BWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS

“Roedd y prosiect eisoes ar waith cyn i fi ddechrau yn y swydd ym mis Rhagfyr. Adeiladwyd model y prosiect ar wirfoddolwyr yn rhoi cymorth rhithiol i gleifion mewnol mewn ysbytai cymunedol. Gwnaeth y model hwn ystyried Pandemig Covid, lle nad oedd rolau gwirfoddoli traddodiadol yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau clinigol wyneb yn wyneb.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gweithio mewn partneriaeth â PAVO i recriwtio gwirfoddolwyr ledled y sir. Gwnaethom ni ddefnyddio’r dull cydweithredol hwn i recriwtio ein gwirfoddolwyr Diwedd Oes. Cafodd deg cydymaith gwirfoddol eu hyfforddi i ymgymryd â’r rôl hon gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Marie Curie.

Roedd rhai o’r heriau y gwnaethom ni eu hwynebu yn cynnwys problemau o ran lleoliadau gwledig, pwysau staff a phwysau’r Gaeaf. Gwnaethom ni hefyd ddarganfod yn anecdotaidd fod, erbyn yr amser yr oedd cleifion mewn ysbyty cymunedol, eu bod weithiau yn rhy sâl i gael y budd mwyaf o gymorth gwirfoddolwr diwedd oes. Wrth i’r prosiect ddatblygu, buom ni’n gweithio gyda’r ardaloedd ward i addasu er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i’r eithaf ar y prosiect yn y llinell amser byr

oedd gennym ni. Rydyn ni'n parhau i edrych ar feysydd gwahanol o fewn y bwrdd iechyd i weld lle gellir uwchraddio'r prosiect.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwerthfawrogi cyfraniad gwirfoddolwyr yn fawr ac yn chwilio am gyfleoedd i ailgyflwyno rolau gwirfoddoli clinigol wyneb yn wyneb.

Mae'n gyfnod cyffrous iawn ym Mhowys. Rydyn ni'n adeiladu academi iechyd a gofal newydd ym Mhowys a fydd yn cynorthwyo gwirfoddolwyr a gofalwyr.

Mae Helplu wedi bod o gymorth i daflu syniadau yn ôl ac ymlaen ac wedi rhoi arweiniad i ni wrth ddatblygu ein capasiti gwirfoddoli ym Mhowys. Rwyf mor frwdfrydig ac yn benderfynol o ddefnyddio'r holl wybodaeth rwyf wedi'i dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.'

Vicky Sharpe, Cydlynydd Cymdeithion Gwirfoddol

Mis Hydref 2021